# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Hydref 2012

# Eisteddfod y Wladfa 2012




Cyrhaeddodd misoedd ar fisoedd o ymarferion a pharatoadau eu penllanw ar benwythnos olaf mis Hydref wrth i gannoedd ar gannoedd o bobl gyrraedd Trelew ar gyfer Eisteddfod y Wladfa 2012.

Cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf yn yr Ariannin ar ddiwrnod Nadolig y flwyddyn 1865, a hynny gwta bum mis ar ôl i fintai'r Mimosa gyrraedd glannau'r Bae Newydd. Yng Nghaer Antur (Rawson erbyn heddiw) oedd yr eisteddfod honno ac er gwaethaf rhai blynyddoedd o seibiant yn yr 20g, ailddechreuodd yr ŵyl yn rhan o ddathliadau'r canmlwyddiant yn 1965. Mae Eisteddfod y Wladfa wedi mynd o nerth i nerth ers hynny, a bellach yn cael ei chynnal yng Nghlwb Racing Trelew. Ac yno y daeth cannoedd o eisteddfodwyr brwd naill ai i gystadlu neu i fwynhau o bob cwr o dalaith Chubut, rhannau eraill o'r Ariannin a thu hwnt, gan gynnwys Cymru.




Cynhaliwyd y rhagbrofion yng Nghapel Tabernacl ac yn Neuadd Dewi Sant ar nos Iau y 25ain o Hydref a bore Gwener y 26ain. Am chwech o'r gloch y noson honno roedd nifer o seddi'r Racing wedi'u llenwi ar gyfer gwledd o gystadlu.

Glenda Thomas a Santiago Meza oedd arweinyddion y noson ac fe groesawon nhw'r Parch. Julio Ross a Lois Dafydd i'r llwyfan i agor Eisteddfod y Wladfa 2012 mewn gair o weddi cyn i'r neuadd dawelu ar gyfer munud o dawelwch. Yna cododd pawb i ganu anthem yr Ariannin cyn eistedd drachefn i fwynhau noson o gystadlu. Ond cyn i'r cystadleuwyr ymddangos ar y llwyfan yn eu tro, fe'i llanwyd gan Ddawnswyr Gwanwyn a Tân Bach a Hogia'r Wilber ar gyfer y perfformiad agoriadol. Cafodd y gynulleidfa modd i fyw yn gwylio'r traddodiadol a'r cyfoes yn cydblethu ar ddawns ac ar gân! Anrhydeddwyd Gwilym Tywi Williams ar ddechrau'r sesiwn gyntaf am ei waith diflino gydag Eisteddfod y Wladfa dros y blynyddoedd.

Roedd y beirniaid yn barod wrth y bwrdd - Ricardo Steinsleger (cerddoriaeth Sbaeneg a rhyngwladol, a'r offerynnau), Leah Owen (cerddoriaeth Gymraeg), Gareth a Margaret Roberts (dawnsio gwerin Cymreig), David Carreño (dawnsio gwerin rhyngwladol), Nelcis Jones (adrodd Sbaeneg), Haf Llewelyn a Beryl Griffiths (adrodd Cymraeg). Roedd rhyw fil wedi cofrestru ar gyfer y gwahanol gystadlaethau, felly ymlaen â'r cystadlu!



Ynghanol y canu, adrodd, offerynnau a dawnsio, cynhaliwyd seremoni'r Fedal dan arweiniad Gabriel Restucha. Daeth 26 cerdd i law'r beirniaid, Nelly Kesen a Susana Medrano, ond cerdd gan 'Sur' ddaeth i'r brig. Ar ganiad yr utgorn safodd Arié Lloyd de Lewis, y bardd buddugol, ar ei thraed a chafodd ei thywys i'r llwyfan gan Gonzalo Lizama ac Eliana Virginia Austin lle derbyniodd y wobr sy'n cael ei chyflwyno gan Gymdeithas Dewi Sant. Cafodd y gerdd, 'El Indio' ei hysbrydoli gan gerflun yr Indiad a ddadorchuddiwyd ym Mhorth Madryn adeg dathlu canmlwyddiant y Wladfa yn 1965. Canodd Roberto Jones i'r bardd buddugol i gyfeiliant Hector Ariel.

Daeth diwrnod cyntaf Eisteddfod y Wladfa i'w therfyn i sain 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

(Trowch at dudalen 2...)

Lois Dafydd



Am ddau o'r gloch trannoeth roedd Clwb Racing dan ei sang, a chafodd sesiwn gynta'r diwrnod ei agor mewn gair o weddi gan Mirna Jones a'r Parch. Carlos Ruiz. Yn dilyn anthem yr Ariannin cafodd Eileen James ei hanrhydeddu am ei chyfraniad i fywyd a diwylliant y Wladfa cyn i Juan Davies a Rebeca White gymryd yr awennau.

Yn ogystal â'r cystadlu oedd i'w weld ar lwyfan yr eisteddfod, cyhoeddwyd amryw ganlyniadau'r cystadlaethau gwaith cartref a beirniaid eraill wedi bod yn brysur dros ben - Laura Henry ac Ana María (cyfieithu Cymraeg-Sbaeneg), Clare Vaughan (cyfieithu Sbaeneg-Cymraeg), Margartita Pentucci (cyfieithu Eidaleg-Sbaeneg), Adriana Keiran (cyfieithu Ffrangeg-Sbaeneg), Silvina Fernández (cyfieithu Saesneg-Sbaeneg-Saesneg), Silvina Veira (celf), Ana Mari González a José María Farfaglia (ffotograffiaeth).



Llanwyd y llwyfan gn aelodau Gorsedd y Wladfa ganol y prynhawn gyda'r Llywydd, Ivonne Owen yn arwain y prif seremoni Gymraeg, sef Cadair yr Eisteddfod. Cerdd ar y testun 'Gwreiddiau' oedd tasg y beirdd a derbyniodd y beirniad, Alun Jones, un ar ddeg o geisiadau. Ond gwaith 'Gruff' enillodd y dydd, ac ar ganiad yr utgorn cododd Gwynedd Huws Jones o Gymru ar ei draed. Lluniodd y prifardd gyfres o wyth cerdd gan ganolbwyntio ar ddau deulu a'u profiad o Ryfel y Malvinas - y naill yng Nghymru a'r llall yn y Gaiman, a'r ddau ar aelwyd o'r enw Gwyndy. Er bod y gerdd yn canolbwyntio ar y rhyfel hwnnw, mae'n ddarlun o ryfeloedd yn gyffredinol a pha mor fregus ydy bywyd dyn. Ar ôl i 'Gruff' eistedd yn hedd yr eisteddfod, arweiniodd Billy Hughes bawb i ganu 'Cân y Cadeirio' a darllenodd Esyllt Nest Roberts ran o'r gerdd fuddugol a thalu teyrnged i'r bardd ar gerdd. Dawnsiodd plant Ysgol yr Hendre ddawns y blodau cyn i'r osgordd adael y llwyfan dan arweiniad Gwynedd Hues Jones. Daeth y prifardd i Eisteddfod y Wladfa gyda chôr Taith i'r Paith o ardal Llanuwchllyn, Gogledd Cymru.




Toriad oedd yn dilyn y cadeirio gydag aelodau Capel Moriah yn darparu te gyferbyn â Chlwb Racing. Dechreuodd sesiwn olaf Eisteddfod y Wladfa gyda chyfle i wylio perfformiad agoriadol y nos Wener unwaith eto cyn i nifer o gystadleuwyr esgyn i'r llwyfan yn eu tro. Gabriel Restucha a Sonia Baliente oedd arweinwyr y rhan olaf, a'r uchafbwynt oedd y coroni. Llunio cerdd oedd yr her unwaith eto, a chyhoeddwyd mai'r gerdd 'Los ángeles del canto' gan 'Selegna' oedd yn deilwng o'r goron cyn datgelu mai Griselda Jones de Redondo oedd y bardd.



Aeth y cystadlu yn ei flaen tan ryw hanner nos a chyhoeddwyd prif enillwyr y gwahanol adrannau: Alwen Green, Trevelin (adrodd Cymraeg), Catrin Raymod, Cymru (unawdydd), Jorge Phillips, Trelew (adrodd Sbaeneg.

Daeth Eisteddfod y Wladfa 2012 i'w therfyn wrth i bawb godi ar eu traed a chanu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Mae rhestr testunau Eisteddfod y Wladfa 2013 ar gael yn barod:
www.eisteddfod.org.ar





# Gorsedd y Wladfa

Mae seremoni Gorsedd y Wladfa yn rhan annatod y Eisteddfod y Wladfa ers un ar ddeg o flynyddoedd erbyn hyn, ac mae hi'n cael ei chynnal yn y Gaiman ar fore Iau wythnos yr eisteddfod honno.

Dechreuodd yr orymdaith o adeilad newydd Capel Bethel am hanner awr wedi naw ar fore'r 25ain o Hydref wrth i aelodau'r Orsedd ddilyn y 'gauchos' Cymreig, oedd yn chwifio baner Cymru a baner yr Ariannin, ar hyd y stryd tua Cherrig yr Orsedd. Ac er gwaetha'r gwynt oer roedd nifer wedi ymgynnull i wylio'r seremoni dan arweiniad Llywydd yr Orsedd, Ivonne Maes Llaned. Ar ôl i Gôr Merched Ysgol Gerdd y Gaiman ganu 'Y Wladfa' dan arweiniad Edith MacDonald, derbyniwyd yr aelodau newydd. Cafodd pedwar ar ddeg eu derbyn i Orsedd y Wladfa eleni a phob un yn cael eu cyflwyno i'r Llywydd yn eu tro, gan addo ymroi i fywyd diwylliannol y Wladfa.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tegid Roberts** | *Tegid Alltwen* | **Nant Roberts** | *Nant Uwchllyn* |
| **Margaret Roberts** | *Margaret o Walia* | **Carris Hughes Davies Pulgar** | *Carris Ferch Moriah* |
| **Ida Williams** | *Ida Bryn Gwyn* | **Susana Celano** | *Suw Bryn Crwn* |
| **Sara Jones** | *Sara Gwern* | **Elliw Baines Roberts** | *Elliw Euarth* |
| **Geraldine MacBurney** | *Geraldine Alaw Tywi* | **Andrés Evans** | *Andrés Maes yr Haf* |
| **Jessica Jones** | *Jessica o'r Cwm* | **Isaías Grandis** | Eseia Bro Hydref |
| **Liliana Freeman** | *Lilliana del Chenque* | **Luis Chavarría Owen** | *Luis Gan Gan* |

Yn dilyn hyn, dawnsiodd rhai o ddisgyblion Ysgol Gerdd y Gaiman ddawns werin o fewn y meini a daeth y ddefod i'w therfyn gyda phawb yn canu 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Rhuthrodd pawb i gynhesrwydd Hen Gapel Bethel i fwynhau paned boeth o de a phlataid o gacennau a bisgedi.

# Diwrnod Trelew: 1886 - 2012



Roedd yr 20fed o Hydref yn ddiwrnod arbennig i drigolion Trelew gan mai dyna ddiwrnod pen blwydd y ddinas, ac eleni roedd hi'n dathlu ei phen blwydd yn 126 oed!

Ar yr 28ain o Orffennaf 1886, union 21 o flynyddoedd arôl i'r Mimosa angori yn y Bae Newydd, cyrhaeddodd llong y Vesta yr Ariannin gydag offer adeiladu a rhyw 400 o bobl ar ei bwrdd. Roedd mwyafrif y teithwyr hyn wedi ymfudo i'r Wladfa yn benodol i adeiladu rheilffordd rhwng Dyffryn Camwy a Phorth Madryn. Roedd angen lle iddyn nhw fyw ac yn raddol ffurfiwyd pentref o amgylch y gwaith, a sefydlwyd Trelew ar 20 Hydref 1886.

Ar achlysur agor yr orsaf drenau yn 1888 rhoddwyd yr enw Trelew ar y pentref er anrhydedd Lewis Jones, un o sylfaenwyr y Wladfa. Datblygodd y pentref lawer dros y degawdau, ac erbyn hyn mae Trelew yn ddinas lle mae tua 100,000 o bobl yn byw! Hon ydy'r ddinas fwyaf poblog yn nyffryn isaf Camwy. Yn ddiweddarach fe ymestynnodd y rheilffordd i'r Gaiman, i Ddolavon, ac yna i Ddôl-y-Plu. Ond caewyd y rheilffordd yn 1961 ac mae gorsaf drenau Trelew bellach yn amgueddfa lle gellir gweld trên stêm y tu allan iddi.




Cynhaliwyd gwahanol weithgareddau i gyd-fynd â phen blwydd Trelew yn ystod mis Hydref, gan gynnwys Pencampwriaeth Teisen Ddu. Cyrhaeddodd hon ei huchafbwynt yng Nghlwb Racing ar brynhawn Gwener y 19eg o'r mis lle daeth nifer o bobl i wylio 10 beirniad (gyda'r gogyddes adnabyddus Dolli Irigoyen yn eu plith) yn blasu 24 teisen. Y deisen olaf oedd yn flaenaf, a'r gogyddes Daiana Càrdenas yn ennill taith i Buenos Aires.

Pen Blwydd Llawen Trelew!

# Holi Arié Lloyd de Lewis...



1. **O ble ydych chi'n dod yn wreiddiol?**
   *Rwy'n dod yn wreiddiol o Fryn Crwn ond yn byw yn Nrofa Dulog erbyn hyn.*

2. **Ble, sut a pham ddysgoch chi Gymraeg?**
   *Y Gymraeg yw fy iaith gyntaf. Gartref ar yr aelwyd y dysgais i hi. Doeddwn i ddim yn siarad fawr ddim Sbaeneg nes i mi fynd i'r ysgol.*

3. **Pa un yw eich hoff air Cymraeg?** *'Craig' yw fy hoff air Cymraeg. Mae'r geiriau 'At y Graig sydd uwch na mi' yn golygu llawer i mi – credaf fod mwy o ddwyster yn y geiriau yn y Gymraeg nag yn y Sbaeneg am ryw reswm. Mae'r emyn 'Craig yr Oesoedd' yn un o'm hoff emynau hefyd.*

4. **Beth oedd eich swydd?** *Prifathrawes ysgol gynradd oeddwn i cyn i mi ymddeol.*

5. **Pryd ddechreuoch chi ysgrifennu?** *Dechreuais ysgrifennu pan oeddwn i'n ferch fach – pethau digon syml wrth gwrs. Byddai Mam yn darllen hanesion i ni'r plant o 'Cymru'r Plant' a phenillion hefyd, a byddem yn eu dysgu ar ein cof. Fe wnaeth hynny ddylanwadu'n fawr arna i.*

6. **Sut deimlad oedd hi i ennill Medal Arian Cymdeithas Dewi Sant yn Eisteddfod y Wladfa eleni eto?** *Roedd yn brofiad llawen iawn wrth gwrs. Rhyw fath o anrheg yw gwobr o'r fath ond rhaid trio peidio teimlo'n rhy falch a phwysig – wedi'r cyfan, chwaeth un beirniad sy'n penderfynu pwy sy'n ennill ynte.*

7. **O ble daw eich ysbrydoliaeth?** *Hanes y Wladfa a'm gwreiddiau. Rwy'n meddwl bod cyfraniad y bobl gyffredin a wnaeth gymaint o bethau gwerthfawr i'r Wladfa – yn ddiwylliannol ac i fywyd bob dydd – yn bwysig iawn. Nhw oedd yn gwasanaethu'r gymuned ac rwy'n gobeithio fy mod yn talu teyrnged iddyn nhw yn fy ngwaith.*

8. **Pa gyfrwng ysgrifennu sydd orau gennych chi ?** *Barddoniaeth yw fy ffefryn, yn bendant. Arddull farddonol sydd gen i wrth ysgrifennu rhyddiaith hefyd – hynny sy'n dod yn naturiol i mi.*

9. **Fyddwch chi yn ysgrifennu yn y Gymraeg hefyd?** *Na fyddaf. Mae ysgrifennu yn Gymraeg yn costio dipyn i mi. Yn Sbaeneg y cefais fy addysg i gyd a doeddwn i ddim yn darllen fawr ddim Cymraeg chwaith ers talwm, heblaw am 'Y Drafod' wrth gwrs. Rwyf yn darllen ychydig bach mwy o Gymraeg rwan – mae'n rhaid i mi pan ydw i'n ymchwilio i hanes y Wladfa – ac mi fyddaf yn ysgrifennu llythyr Cymraeg bob hyn a hyn hefyd ond bydd yn cymryd llawer o amser.*

10. **Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi ei wneud?**
    *Dwi ddim yn hoffi coginio ond wrth gwrs, pan mae'n rhaid coginio rwy'n meddwl fy mod yn gwneud bwyd gweddol flasus! Rwy'n hoff iawn o ysgrifennu, darllen, tynnu lluniau a chwarae efo fy wyrion, Mabon (5 oed) ac Idris (4 oed) a'r wyres fach, Ada Mabli, sy'n flwydd oed.*

11. **Beth ydy eich hoff/cas fwyd?**
    *Rwy'n hoff iawn, iawn o gaws ond ddim yn rhy hoff o fwydydd seimllyd, na chyw iâr (oni bai ei fod wedi crimpio'n iawn!).*

12. **Ydych chi wedi bod i Gymru?** *Do, yn y flwyddyn 2008. Arhosais gyda theulu a ffrindiau yno ac roedd hi'n fraint cwrdd â phobl garedig a aeth â mi i adnabod pob cwr o'r wlad. Cefais weld o ble y daeth fy nghyndeidiau – profiad emosiynol iawn. Ymweliad â hen gartref teuluol a ysbrydolodd y gerdd a enillodd imi Goron Eisteddfod y Wladfa y llynedd. Pan oeddwn yn aros yng Nghymru cefais fynd i weld chwaer fy mam a oedd yn byw yn yr Alban. Doeddwn i ddim wedi ei gweld ers hanner canrif ac mi drysoraf y dyddiau a dreuliais gyda hi am byth.*

13. **Ble mae eich hoff le yn y byd?**
    *Unrhyw le ble mae yna gariad a pharch. Rwy'n hoff iawn o olygfeydd gwyrdd, blodeuog hefyd.*

# Cymanfa Ganu Eisteddfod y Wladfa

Digwyddiad arall sy'n rhan annatod o Eisteddfod y Wladfa ydy'r gymanfa ganu sy'n cael ei chynnal trannoeth yr eisteddfod. Yn ôl yr arfer cafodd ei chynnal yng Nghapel Bethel y Gaiman am un ar ddeg o'r gloch ar fore Sul yr 28ain o Hydref, a'r adeilad yn orlawn!




Agorwyd y gymanfa mewn gair o groeso gan Gladys Thomas, a drefnodd y gwasanaeth ar y cyd gydag Edith MacDonald. Darllenodd Tirsa Gonzalez (Cymraeg) a Lisa Hughes (Sbaeneg) o'r Salmau cyn i Lois Dafydd arwain y gynulleidfa mewn gweddi. Er gwaetha'r holl gystadlu a phrysurdeb yr eisteddfod, llanwyd y capel gyda chanu soniarus ac angerddol un emyn ar ôl y llall!

Ynghanol yr holl ganu cynulleidfaol, cododd criw o bobl ifanc yr Urdd i'r sedd fawr i ganu cân o fawl, a rhannodd y Parch, Tegid Roberts neges gyda'r gynulleidfa yn seiliedig ar y darlleniad o'r Salmau.

Aeth y canu yn ei flaen yn llawn angerdd cyn i'r gymanfa ddod i ben am flwyddyn arall wrth i Lois Dafydd a'r Parch. Carlos Ruiz draddodi'r fendith. Wedi ychydig o sgwrsio gyda chyfeillion hen a newydd, trodd nifer at gimnasio'r Gaiman lle'r oedd asado'r eisteddfod yn cael ei gynnal dan ofal Ysgol yr Hendre.

---

# Cymanfa Ganu Capel Tabernacl, Trelew



Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant yn y Tabernacl fis yma ac yn ôl yr arfer, cafodd y gynulleidfa ei chroesawu yno gan sain Liz Suárez ar yr organ. Roedd oedd mwyafrif seddi'r capel yn Nhrelew yn llawn ar brynhawn dydd Sadwrn yr 20fed o Hydref wrth i'r canu ddechrau; arweiniwyd y canu gan Gladys Thomas, Edith MacDonald, Catrin Morris a Rebeca White.

Roedd cyfle hefyd i wrando ar rai o'r plant lleol yn canu wrth i gôr 'Lleisiau Bach y Dref' lenwi'r sedd fawr a pherfformio 'Deuwch gyda fi' a 'Braf yw Bwyta'. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando ar y plant yn canu!

Darllenodd Judith Jones (Sbaeneg) a Lois Dafydd (Cymraeg) Salm 85, a rhannodd y Parch. Carlos Ruiz neges yn seiliedig ar y darn hwnnw o'r Beibl. 'Heddwch' yw thema'r cymanfaoedd canu eleni, a'r tro hwn roedd yr anerchiad yn sôn am yr heddwch sydd ar gael i ni gyda Duw ac wrth i ni wneud Ei waith.



Daeth y gymanfa i'w therfyn gyda'r fendith, a phawb yn gadael y capel i gyfeiliant Liz Suárez ar yr organ unwaith eto.

# Fy nghyfnod yng Nghymru

Virginia Steinkamp dwi. Dwi'n byw yn Nhrelew a dwi'n 18 mlwydd oed. Dwi'n astudio Cymraeg ers 6 blynedd mewn dosbarthiadau yn Nhrelew. Eleni enillais i ysgoloriaeth i fynd i Gaerdydd i wneud dau o gyrsiau Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyrhaeddais i ar y 27ain o Fehefin ac arhosais i efo Hywel ac Elin Roberts am ddau fis wrth i mi ddilyn y cyrsiau; nes i gyrsiau Pellach ac Uwch, mwynheais y gweithgareddau a'r ffordd wahanol o ddysgu'r iaith.



Ar ddiwedd y mis cyntaf es i i Ddinbych ar gyfer dathliad Gŵyl y Glaniad, lle nes i cwrdd â llawer o bobl - rhai do'n i ddim yn eu nabod. Ym mis Awst es i i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg. Roedd yn brofiad gwych a mwynheais i'r gwahaniaeth rhwng yr eisteddfodau sydd yn y Wladfa. Nes i gwrdd â llawer o bobl ro'n i'n eu nabod o adra. Cefais gyfle i deithio o amgylch yr ardal ar y penwythnosau; es i i Bontypridd, Caerfyrddin, Abertawe, a mwy o llefydd lle roedd amgueddfeydd a phethau diddorol i'w gwneud.

Ar ôl gorffen y cwrs olaf ar ddiwedd Mis Awst es i i Ogledd Cymru am fis arall - ac o'n i dechrau colli pawb adra. Arhosais i ym Methel, Caernarfon am bythefnos efo pobl ddaeth i Eisteddfod y Wladfa 2011 yn Nhrelew gyda Chriw yr Urdd; rhai nosweithiau efo Bronwen Price, un noson efo Gethin Griffiths ac wythnos efo Manon Elwyn. Yn ystod y pythefnos hwn nes i gwrdd â Nia Wynne oedd yn athrawes yn Ysgol Yr Hendre yn Nhrelew y llynedd – aethon ni o gwmpas yr Wyddfa. Ar ôl Caernarfon es i i Ddinbych i aros am wythnos efo Bethany Celyn lle nes i cwrdd â mwy o ffrindiau a phobl newydd! Yn yr wythnos olaf es i i Brestatyn i aros efo Lucy Sumner, Athrawes Gymraeg yn Nhrelew a Gaiman y llynedd. Pan o'n i efo hi es i i'r ysgol lle mae hi'n dysgu Cymraeg trwy gyfrwng y Saesneg, ac roedd yn brofiad neis - nes i fwynhau.

Dwi'n hapus iawn efo'r amser dwi wedi byw yng Nghymru achos dwi wedi nabod llawer o bobl a

llefydd ac wedi derbyn llawer o groeso a chyfeillgarwch gan bawb! Cyrhaeddais i Drelew ar y 27ain o Fedi. Ar ôl mwynhau Cymru a dysgu llawer mwy o Gymraeg dwi'n hapus iawn i fod 'nôl yma i helpu i gario ymlaen efo'r diwylliant a'r iaith.

# 'Patagonia' yn serennu

'Patagonia' oedd seren noson wobrwyo BAFTA Cymru yn ddiweddar. Nod BAFTA Cymru (Academi Brydeinig Celfyddydau Ffilm a Theledu yng Nghymru) yw cefnogi doniau yn y diwydiannau ffilm, teledu a gemau fideo, ac roedd y seremoni a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Mileniwm Caerdydd ar nos Sul y 30ain o Fedi yn dathlu'r doniau hynny.

Enillodd y ffilm 'Patagonia' bedair gwobr yn y noson wobrwyo, a hynny yng nghategorïau Sain (Simon Fraser), Golygu Ffuglen (Mali Evans), Gwallt a Choluro (Jo Evans), a'r Cyfarwyddo (Marc Evans). Cafodd rhan ohoni ei ffilmio yma yn yr Ariannin, gan ddilyn taith cwpl ifanc o Gymru i'r Wladfa, ac roedd gweddill y ffilm yn dilyn taith dau Archentwr i Gymru ar drywydd teulu.




Dechreuodd y ffilmio fis Mawrth 2009 gyda'r prif actorion, Matthew Rhys a Nia Roberts, yn ogystal ag actorion eraill a'r criw ffilmio yn teithio i Batagonia. Cafodd rhai golygfeydd eu ffilmio yma yn Nyffryn Camwy ac yng Nghwm Hyfryd yn ystod yr ychydig fisoedd hynny, ac mae nifer o lefydd cyfarwydd iawn i'w gweld trwy gydol y ffilm! Marta Lubos a Nahuel Pérez Biscayart yw'r actorion Archentaidd ac mae'r ffilm yn ddwyieithog, Cymraeg a Sbaeneg.

# Cowbois Rhos Botwnnog



Ym mis Hydref eleni cawsom y cyfle i ymweld â'r Ariannin yn rhinwedd lwcus ein swydd fel cerddorion. Pwrpas yr ymweliad oedd mynd i berfformio a chynnal gweithdai yn y Wladfa Gymreig, er i ni fod yn ddigon ffodus i gael ychydig ddyddiau o wyliau ym Muenos Aires cyn y daith hirfaith i lawr i Drelew.

Wedi cyrraedd gorsaf Trelew, cafwyd croeso mawr yno gan Anna Chiabrando, ac i ffwrdd â ni yn syth i'r Gaiman. Anodd oedd peidio syllu ar y tirwedd wrth fynd o un lle i'r llall – felly yr oedd hi hefyd ar y bws i lawr – ac roedd y camera allan bron drwy'r amser!



Roedd Lois Dafydd wedi bod yn brysur yn trefnu amserlen i ni, a thrwy hynny cawsom lu o brofiadau annisgwyl, difyr ac anhygoel; bron yn syth wedi i ni gyrraedd roeddem yn fyw ar y radio yn Nhrelew gyda Luned a Tegai, a daethom i'w hadnabod ill dwy dros y dyddiau canlynol. Cawsom y cyfle i recordio ychydig o ddeunydd newydd yn stiwdio Bryn Alaw gyda Hector Ariel, a'r gobaith yw y bydd y cynnyrch yn gweld golau dydd yn ddigon buan!

Pleser o'r mwyaf oedd gweithio yn yr ysgolion. Roedd y plant mor barod i ychwanegu at y sesiynau fel nad oedd prin yn teimlo fel gwaith – ymunodd hanner dwsin o ddisgyblion â ni mewn cyngerdd yn Ysgol yr Hendre, ac roedd clywed y caneuon gydag acenion Sbaeneg y tu ôl i ni yn werth chweil! Dyma'r math o beth a welsom yn aml drwy gydol y daith; rhyw ongl newydd, annisgwyl, ond eto mor gyfarwydd.



Ar wahân i'r gwaith, cawsom asado neu ddau a chyfle i fynd i weld yr hen ffermydd, yn ogystal ag ambell bizza enfawr yn La Fonda. Digalon oedd gorfod gweld Cymru'n colli o 6-1 yn erbyn Serbia, ond buan iawn yr oedd hynny'n angof!

Diwedd ein hamser yn y Gaiman oedd cael perfformio ar lwyfan Eisteddfod yr Ifanc cyn brysio yn ol i hel ein pac a chwilio am y bws i'n cludo i'r Andes, lle treuliasom weddill ein hymweliad!

Mae cymaint yr ydw i wedi anghofio eu crybwyll, ac y mae cymaint y gallwn hefyd fod wedi eu hychwanegu. Yn lwcus, mi brynodd Dafydd gamera digon swanc cyn y daith, a chanlyniad hynny ydi oriau o fideo sy'n prysur lenwi pob cyfrifiadur o fewn cyrraedd (gan gynnwys rhai Lois ac Iwan!) Wrth fynd drwy'r hyn a gafodd ei ffilmio does dim dwywaith y daw llu o atgofion yn ol – dim ond ers cwta fis yr ydym adref, ond mae'n teimlo mor bell i ffwrdd yn barod!



Hoffem ddiolch o galon i bawb fu'n ymwneud a threfnu a hwyluso'r daith. Wnai ddim trio rhestru pawb rhag i mi anghofio rhywun. Ond os gwnaethom drafod a chi cyn y daith, neu eich cyfarfod yno, mae'r diolch i chi!

Aled, Cowbois Rhos Botwnnog

## Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

### Dillad / *Ropa*

| | |
|---|---|
| Crys-T | *Remera* |
| Trywsus | *Pantalon* |
| Trywsus byr | *Pantalon corto* |
| Sgert | *Pollera* |
| Ffroc | *Vestido* |
| Crys chwys | *Buso* |
| Crys | *Camisa* |
| Sandalau | *Sandalias* |

**Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...**


PLAS HEDD
Complejo Turístico

Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.

(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

*Plas-y-Coed*

Tŷ Te hynaf Gaiman.




Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.

Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.

TeithiauTango
Dewch i weld y Wladfa
ATOL 10002 PROTECTED

www.teithiautango.co.uk

Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.

Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew

camposur
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

*Gwalia Lân*

Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.

Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.

# Treiffl Mefus a Siocled Gwyn

Cynhwysion y sbwng: 3ŵy 75g siwgr 75g blawd codi jam mefus

Chwisgiwch yr wyau a'r siwgr mewn bowlen neu eu bod yn lliw golau ac yn ysgafn. Plygwch y blawd i'r gymysgedd cyn trosglwyddo'r cyfan i dun sgwâr neu hirsgwâr fflat sydd wedi'i leinio a'i iro. Pobwch ar farc nwy 6 am 7-10 munud neu nes ei bod yn ysgafn. Trosglwyddwch y deisen i ddarn arall o bapur saim a thaenwch y jam drosti. Gallwch roi mefus hefyd, os dymunwch. Rhowliwch y sbwng.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynhwysion y treiffl: | 175g siocled gwyn | 2 melynwy | 25g siwgr |
| | 150ml llaeth | 85g hufen dwbl ar gyfer y cwstard | |
| | 200g hufen dwbl | digon o siwgr eisin | 225g mefus ffres |



Chwisgiwch y melynwy a'r siwgr am ryw 2-3 munud nes eu bod yn lliw golau ac yn drwchus.

Arllwyswch y llaeth a'r hufen (85g) i sosban a'u berwi cyn eu harllwys dros yr wyau gan chwisgio'r gymysgedd drwy'r amser. Arllwyswch y cyfan yn ôl i'r sosban a'i roi ar wres cymhedrol. Trowch y gymysgedd gyda llwy bren nes iddo ddechrau tewhau ac yn gorchuddio cefn y llwy. Ychwanegwch 150g o siocled gwyn (rhowch y gweddill yn yr oergell) a chymysgu'r cyfan nes i'r siocled doddi.

Tynnwch y sosban o'r tân a gadael iddo oeri rhywfaint. Gorchuddiwch y cwstard gydag ychydig o siwgr eisin a dalen o blastig er mwyn sicrhau na fydd croen yn ffurfio.

Torrwch y sbwng yn ddarnau mawr gan eu gosod mewn bowlen wydr fawr, a gwasgarwch rai o'r mefus drostyn nhw. Arllwyswch y cwstard dros y cyfan a'i roi yn yr oergell dros nos, neu am oriau. Cymysgwch hufen dwbl gyda faint a fynnoch o siwgr eisin a'i daenu dros y treiffl. Rhowch mefus wedi'u torri ar yr hufen a gratiwch y siocled gwyn sydd yn yr oergell dros y cyfan.

Mae'n barod i'w fwyta!


## Geirfa'r Mis — *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| tu hwnt | ***más alla*** | melynwy | ***yema de huevo*** |
| cyfoes | ***contemporáneo*** | chwisgio | ***batiar*** |
| rhyngwladol | ***internacional*** | noson wobrwyo | ***noche de premios*** |
| ysgoloriaeth | ***beca*** | arllwys | ***verter*** |
| llynedd | ***el año pasado*** | gratio | ***rallar*** |
| tirwedd | ***paisaje*** | rhyfel | ***guerra*** |

# Cornel y Plant

**Llongyfarchiadau i Valentina Montenegro, Trelew am liwio Bob y Bildar!**

**Lliwiwch Peppa Pig**



Anfonwch eich lluniau at Lois Dafydd
erbyn 30 Tachwedd 2012 am gyfle i ennill gwobr!

## Chwilair Chwaraeon

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| w | ff | p | e | l | l | a | w | s | d | rh | g | l |
| s | t | e | ch | y | b | c | e | r | s | e | b | n |
| d | y | l | h | t | h | s | l | i | m | t | ng | ll |
| g | p | d | f | n | c | g | p | t | r | y | h | p |
| b | l | r | y | g | b | i | u | e | ch | i | f | o |
| n | ff | o | m | p | h | o | t | n | r | s | b | h |
| f | i | e | g | l | s | h | p | n | o | f | i | o |
| rh | e | d | e | g | d | w | th | i | p | h | l | c |
| c | b | r | ff | w | t | f | g | s | l | g | m | i |

Rygbi
Hoci
Pêl-droed
Pêl-law
Nofio
Tennis
Rhedeg
Sgio

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi,
cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198